Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Llys
# Ysgol Y Llys
# Princes Avenue
# Prestatyn
# Sir Ddinbych
# LL19 8RP

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Y Llys, sydd wedi ei leoli yn Ysgol Y Llys, Prestatyn, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'n agor am bum dydd yr wythnos ac mae gan y lleoliad pump ymarferwr llawn amser a dau rhan amser.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 27 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant o ddwy flwydd a hanner i dair oed. Ar adeg yr arolygiad, mynychodd 26 plentyn. Mae'r awdurdod lleol yn ariannu 16 ohonynt. Mae Dechrau'n Deg yn ariannu plant iau yn y prynhawniau.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig. Nid oes un plentyn yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym mis Medi 2002. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Medi 2015. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Ebrill 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- cynnydd addawol gan blant ym mhob maes dysgu
- agweddau cadarnhaol gan blant tuag at dasgau
- ymddygiad cyfrifol gan blant, dan do ac yn yr awyr agored
- profiadau dysgu wedi'u cynllunio'n dda
- addysgu effeithiol
- gofal diwyd o'r plant
- amgylchedd dysgu ysgogol
- adnoddau o ansawdd uchel
- perthnasau cadarnhaol rhwng oedolion a phlant
- cydweithrediad effeithiol rhwng staff

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- darpariaeth bwrpasol a chyfeiriad clir i waith y lleoliad gan yr arweinydd
- systemau hunanarfarnu rheolaidd a phriodol
- agweddau cadarnhaol a gweithredol gan ymarferwyr tuag at ddatblygiad a hyfforddiant
- defnydd effeithiol o wasanaethau cymorth fel yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin
- gwaith ymrwymiedig gan y pwyllgor rheoli cefnogol
- perthynas effeithiol iawn gyda'r ysgol

## Argymhellion

A1 Defnyddio asesiadau dyddiol i dargedu'r camau nesaf yn dysgu plant unigol

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i blant symud yn annibynnol rhwng yr ardaloedd dysgu dan do a’r awyr agored

A3 Mireinio'r broses hunanarfarnu i ddangos sut mae'r lleoliad yn nodi targedau i ddatblygu

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyflawni safonau da erbyn diwedd eu hamser yn y lleoliad, o ystyried eu mannau cychwyn. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn yr hyn y maent yn eu gallu gwneud yn ddyddiol, ac yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau a'u hemosiynau trwy chwarae rôl, meimio a chynnal trafodaethau'n synhwyrol ag oedolion a'i gilydd. Maent yn esbonio'n glir y gwahaniaeth rhwng teimlo'n 'hapus' a 'thrist' wrth drafod stori. Mae bron pob un plentyn yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod eraill yn eu deall mewn tasgau. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau wrth oedolion a chyfoedion ac yn eu gweithredu'n effeithiol. Mae llawer o blant yn defnyddio iaith briodol mewn chwarae digymell a strwythuredig, fel maent yn trafod y defnydd o siswrn a glud i greu cyw lliwgar â phlu. Mae bron pob un plentyn yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddwyd yn y Gymraeg ac mae tua hanner y plant yn defnyddio'r Gymraeg heb anogaeth.

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau'n hyderus gydag oedolion a phlant eraill. Mae'r mwyafrif ohonynt yn dewis i drin y llyfrau fel darllenwyr naturiol. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn storïau sy'n cael eu darllen iddynt yn synhwyrol. Maent yn ymateb yn dda i gynnwys y stori a thrafod anturiaethau'r tri mochyn bach a'r blaidd yn ystyrlon.

Mae llawer o blant yn arbrofi â chreu marciau'n effeithiol. Maent yn mwynhau'r profiadau ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent a sialc. Mae llawer o blant yn deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu trwy gofio enwau eu hun a'i gilydd a rhannu syniadau am yr hyn maent yn ceisio nodi ar bapur neu ar y wal â sialc. Mae llawer o blant yn gwneud marciau'n annibynnol wrth beintio, trafod pensiliau, lliwio gyda chreonau ac olrhain cylchedd cryno ddisg ar bapur.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis a defnyddio syniadau, offer a deunyddiau mathemategol i ddatrys problemau ymarferol yn effeithiol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif, adnabod ac enwi rhifau i bump yn hyderus ac ychydig iawn yn cyfrif hyd at 10 ac ymhellach. Maent yn rhifo tryciau wrth adael iddynt rhedeg lawr y llethr yn yr ardal allanol a phenderfynant yn llwyddiannus pa dryciau sy'n 'araf' neu'n 'gyflym', yn ôl eu maint.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol gyda'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio anifeiliaid a gwrthrychau fel 'bach', 'canolig' a 'mawr' wrth drafod lluniau o anifeiliaid y fferm a nodi'r gwahaniaeth rhwng 'llawn' a 'gwag' wrth lenwi bwcedi â thywod. Maent hefyd yn defnyddio rhifau'n ymarferol a'n llwyddiannus wrth drafod 'llai na' a 'fwy na' wrth gymharu siapiau dau a thri dimensiwn yn gywir. Mae bron pob un plentyn yn grwpio gwrthrychau o wahanol

fathau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir.  Maent yn trafod gwahanol siapiau yn synhwyrol wrth chwarae â thoes a pheintio.  Maent hefyd yn ystyried priodweddau gwahanol siapiau tra'n eu hela yn yr ardal allanol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwrando gyda mwynhad i gerddoriaeth ac ymateb yn frwdfrydig i rigymau.  Maent yn defnyddio technoleg wrth iddynt chwarae rôl yn hyderus yn y gegin ac mewn gweithgareddau bob dydd fel defnyddio ffôn symudol a chyfrifiannell.  Maent yn defnyddio botymau’n fedrus i ddechrau chwaraeydd cryno ddisgiau er mwyn gwrando ar ganeuon a rhigymau cyfarwydd.  Mae’r rhan fwyaf ohonynt wedi datblygu medrau meddwl da ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a’r safonau y maent yn eu cyflawni.  Er enghraifft, maent yn ddeallus wrth gydweithio ag eraill wrth ddarganfod rhifau dan hwyaid yn y dŵr.  Mae llawer o blant yn defnyddio’r cyfrifiadur ac offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), fel camerâu a theganau electronig yn effeithiol.  Maent yn defnyddio’r cyfrifiadur yn fedrus i reoli rhaglenni fel lliwio defaid yn gywir.

**Lles:  Da**

Mae bron pob plentyn, yn unol â'u hoedran, â dealltwriaeth dda o sut gallant gadw'n iach.  Maent yn golchi eu dwylo'n drylwyr cyn bwyta’u byrbrydau ac yfed.  Maent yn gwneud hyn heb lawer o anogaeth.  Mae ganddynt ddealltwriaeth dda bod diet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau.  Mae lleiafrif o blant yn egluro’n ddeallus bod ymarfer corff yn eich cadw'n heini a bod gweithgareddau corfforol yn gwneud i'ch calon guro'n gyflymach.

Mae bron pob un plentyn yn ymddwyn yn dda.  Maent yn gwrtais ac yn ymateb gyda pharch at oedolion a'i gilydd.  Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau da o hunan-hyder, er enghraifft, wrth baratoi ar gyfer amser byrbryd ac wrth wisgo eu hunain ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.  Mae bron pob un plentyn yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu.  Maent yn mwynhau'r gweithgareddau yn y meysydd dysgu a rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda chyfoedion.  Mae bron pob un plentyn yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd yn y lleoliad a phan fyddant yn gadael.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau a dysgu newydd.  Maent yn ymwybodol o anghenion eraill ac yn dangos parch atynt wrth rannu mewn tasgau gan ddefnyddio paent, toes a phridd.  Mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.  Maent yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac maent yn awyddus i drafod eu hoff weithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion a bod ganddynt yr hawl i fynegi barn, er enghraifft wrth benderfynu i aros ar dasg o’u dewis neu i symud ymlaen at weithgaredd arall.  O ganlyniad, mae bron pob un plentyn yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, ymgysylltu a ffocws.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu'r cwricwlwm yn effeithiol ac mae'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae'r profiadau dysgu yn targedu anghenion a diddordebau plant yn llwyddiannus ac yn eu hysgogi i ddysgu'n bwrpasol. Mae'r lleoliad yn datblygu cyfleoedd i blant i gymryd rhan yn y cynllunio a mynegi eu diddordebau yn y themâu tymhorol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at eu cymhelliant.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu'n drwyadl. Mae ymarferwyr yn trafod themâu a gweithgareddau mewn cyfarfodydd wythnosol ac mae'r arweinydd yn trefnu'r cynllunio o weithgareddau'r thema. Mae ymarferwyr a phlant yn cyfrannu eu syniadau i gyfoethogi'r gweithgareddau ymellach. Mae'r ymarferwyr felly, yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau hyblyg a llwyddiannus.

Mae'r profiadau dysgu ysgogol, sy'n cynnwys heriau gyda chafnau dŵr a sgramblo wyau, yn darparu dilyniant a pharhad yn dysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn herio pob plentyn ym mhob maes dysgu, yn enwedig mewn tasgau llythrennedd a rhifedd. Mae'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant. Fodd bynnag, nid yw'n cysylltu'n gyson i strategaethau asesu'r lleoliad i dargedu'r camau nesaf yn dysgu plant unigol.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n fanwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu, sy'n herio pob plentyn yn gyson. Cydlynir y ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn yn effeithlon fel bod cydlyniad ym mhrofiadau'r plant ar draws y cwricwlwm. Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn dda iawn. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu'r iaith yn effeithiol. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag sy'n bosibl yn eu dysgu trwy ymarferion arloesol gyda grwpiau penodol o blant a arweinir gan weithwyr allweddol.

Mae'r deunyddiau a'r dulliau cyflwyno yn cael eu haddasu'n dda i wneud y cwricwlwm yn hygyrch i bob plentyn. Mae'r cynllunio o wneud marciau a thasgau rhif ar draws yr holl feysydd dysgu yn ysgogol a deniadol. Maent yn ddilyniadol a heriol, sy'n annog plant i wneud marciau ac ymchwilio i briodweddau rhifau a siapiau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn amlwg trwy ddefnyddio cyfrifiadur, llechi electronig, camerâu a theganau electronig. Mae hyn yn mwyhau medrau TGCh y plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i blant i ddatblygu mewn i ddysgwyr annibynnol. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant yn ddeallus.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae ymweliadau i'r gymuned leol i bostio llythyron yn y swyddfa bost, ymweliadau i ffermydd lleol, y llyfrgell, bwyty a chaffi ac archfarchnadoedd yn ychwanegu diddordeb i'r cwricwlwm. Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys y gwasanaethau brys, hylenydd deintyddol, ffermwr ag ŵyn a bydwraig, yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol sy'n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r profiadau a gynllunnir yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd i'r plant. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliannau Cymru yn llwyddiannus, sy'n cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac maent yn wybodus ynglŷn â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae disgwyliadau uchel ganddynt ar gyfer yr holl blant ac maent yn herio'r plant yn gyson ym mhob tasg ffocws. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr â chydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u harwain gan oedolion. Maent yn ymyrryd yn bwrpasol mewn gweithgareddau a chwarae'r plant i ysgogi a chymell y plant. Mae pob ymarferwr yn bositif iawn wrth i blant gyrraedd ac maent yn parhau gyda'r brwdfrydedd hwn drwy gydol y sesiwn.

Mae'r system o rannu dyletswyddau yn sefydlog. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhannu gwybodaeth am blant yn rheolaidd. Mae'r holl ymarferwyr yn weithredol ac maent yn deall y pwysigrwydd o ddarparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad ymarferol. Mae system gweithiwr allweddol y lleoliad yn effeithiol iawn. Mae'n targedu datblygiad geiriau a phatrymau iaith y Gymraeg yn llwyddiannus drwy atgyfnerthiadau parhaol a dylanwadol ar ddechrau pob sesiwn. Mae hyn yn arfer da iawn.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, yn ddiogel ac yn effeithiol. Maent yn fodelau iaith da iawn eu hunain ac yn darparu amgylchedd cyffrous y tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd. Maent yn defnyddio cwestiynu'n effeithiol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Cryfder yn y maes yma yw parodrwydd yr ymarferwyr i gael y plant i werthfawrogi eu gwaith eu hun a gwaith plant eraill yn rheolaidd, yn enwedig yn ystod tasgau ffocws.

Mae'r cofnodion dyddiol o gynnydd a gedwir gan yr ymarferwyr yn drwyadl. Mae'r ymarferwyr yn cynnwys plant wrth asesu eu dysgu eu hunain ac yn trafod yn synhwyrol â'r plant yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae ymarferwyr yn arwain hyn yn bwrpasol yn ystod diweddglo'r sesiwn gyda'u grŵp bach eu hunain. Mae'r holl ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn targedu'r camau nesaf yn dysgu plant unigol gyda digon o drylwyredd.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn briodol am gyflawniadau eu plant. Mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg drwy bolisi drws agored y lleoliad sy'n annog trafodaethau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu'n

effeithiol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio pypedau'n synhwyrol i ganolbwyntio ar foesau unigolyn ac i ystyried teimladau ei gilydd. Felly, maent yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus.

Mae cyfleoedd gwerth chweil ar gael i blant i fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo bob dydd. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbrydau ac yfed llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta. Mae helpwr y dydd yn cynorthwyo’n dda wrth weini byrbrydau a diodydd. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant i ail-gylchu papur, cardfwrdd, plastig a bwyd. Maent hefyd yn compostio’r bwyd ym ardal gompostio’r ysgol. Mae hyn yn dechrau ddatblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae gan yr holl ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas ac mae'r gymhareb oedolion i blant yn ffafriol iawn. Mae arbenigedd ymarferwyr yn cael ei ddefnyddio'n dda wrth addysgu a goruchwylio gweithgareddau.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn dda pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd a nodi mannau cychwyn y plant yn y lleoliad yn drylwyr. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant yn dda gyda chymorth ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol pan fydd yr angen yn codi. Yr arweinydd yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu ac offer. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol ac amrywiol y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiadir gan yr ymarferwyr. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu gwahanol wyliau o bob cwr o'r byd fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gyda doliau o wahanol ddiwylliannau.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau’n bwrpasol i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau helaeth yn hygyrch i blant, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau parhaus,

y tasgau ffocws a’r cyfleoedd i gyfoethogi yn rhannu adnoddau dysgu yn effeithiol, ac mae eu defnydd gan y plant yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Anogir y plant i symud yn rhydd o amgylch y meysydd dysgu ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys symud yn rhydd rhwng y tu mewn a thu allan yr adeilad i brofi holl feysydd dysgu yr ardal allanol.

Mae ardal allanol effeithiol yn bodoli, sy'n cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio cyfleusterau’r ysgol yn dda. Mae hyn yn cynnwys y defnydd rheolaidd o neuadd yr ysgol i hyrwyddo datblygiad corfforol y plant ar gyfer dawnsio ac ymarfer corff. Mae’r lleoliad hefyd yn defnyddio tiroedd yr ysgol ar gyfer ymchwiliadau amgylcheddol fel helfeydd pryfed, casglu dail ac adeiladu cysgodfannau. Mae'r lleoliad yn rhan o adeilad yr ysgol. O ganlyniad, mae o ansawdd addas, wedi cynnal yn dda ac yn ddiogel.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r arweinydd yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau’n llwyddiannus. Mae’r arweinydd yn rheoli’r addysgu a’r dysgu’n dda ac mae disgwyliadau’r holl ymarferwyr yn uchel. Mae’r arweinyddiaeth yn sicrhau fod deilliannau ar gyfer y plant yn dda.

Mae’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli cefnogol yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau’n llawn ac maent yn cydweithio'n frwdfrydig fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn effeithiol. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd yr ymarferwyr.

Mae’r arweinyddiaeth ofalgar yn cymell yr ymarferwyr tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae'r arweinydd a’r ymarferwyr yn cynllunio’n bwrpasol er mwyn darparu profiadau diddorol i'r plant tu mewn i’r adeilad ac yn yr awyr agored.

Mae’r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn gyson i greu gwelliannau fel y gegin fwd a’r ardaloedd plannu yn yr ardal allanol. Mae ganddi ffocws glir ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r lleoliad. Fodd bynnag, mae'r ffordd yr adnabyddir y blaenoriaethau hyn gan y lleoliad yn aneglur o bryd i'w gilydd.

Mae'r cynllun datblygu priodol yn ddogfen weithredol. Mae blaenoriaethau addas ar gyfer gwella yn cael eu nodi drwy weithdrefnau hunanarfarnu rheolaidd. Mae prosesau cefnogol y pwyllgor rheoli’n sicrhau bod cyllid ac adnoddau ar gael i gwrdd â’r amcanion gwella.

Mae'r ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r polisïau yn weithredol ac mae’r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen a’r asesiadau newydd i nodi mannau cychwyn pob plentyn yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r hunanarfarnu'n cymryd ystyriaeth bwrpasol o farn ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae hyn o fudd i ddatblygiad y lleoliad. Mae'r arweinydd yn dangos yn glir sut y mae hi a'r ymarferwyr wedi gwella'r ddarpariaeth dros amser, trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor gwerthfawr wrth eraill. Mae hyn yn cynnwys y datblygiadau diweddar yn yr ardal allanol a dynodi gweithwyr allweddol i grwpiau penodol o blant ar ddechrau a diwedd pob sesiwn, sy'n effeithio'n sylweddol ar fedrau'r plant yn y Gymraeg.

Mae'r holl ymarferwyr yn wybodus am waith cyfredol y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r uwch ymarferwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau'r plant a'r ddarpariaeth. Mae cydweithio'n effeithiol o ddydd i ddydd yn cyflawni hyn. Mae'r arweinydd yn asesu'n gydwybodol ac mae gweddill yr ymarferwyr yn rhannu syniadau'n synhwyrol. Mae'r pwyllgor rheoli'n defnyddio'r cyllid yn effeithlon ar gyfer adnoddau a lefelau uchel o staffio.

Mae'r meysydd i'w datblygu yn cael eu cydnabod yn briodol fel yr angen i wella medrau rhifo'r plant a'r cyfleoedd i ail-gylchu. Mae'r arweinydd yn cymryd camau i gynnal arferion effeithiol a rhoi newidiadau ar waith. Mae cysylltiadau priodol yn bodoli rhwng yr hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu, sy'n ffocysu ar welliannau yn y lleoliad. Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn arwain gyda digon o fanylder i sut a pham y mae angen datblygu rhai meysydd ymhellach drwy dargedau penodol.

Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Mae'r ymarferwyr yn barod iawn i dderbyn syniadau newydd, a awgrymwyd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae cyngor ar sut i wella'r hunanarfarnu, trwy farcio gwaith y lleoliad yn erbyn meini prawf penodol, wedi effeithio'n dda ar ansawdd y profiadau dysgu a'r addysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n strategol gyda phartneriaid i wella darpariaeth a safonau a lles plant. Mae effaith y partneriaethau strategol ar safonau a lles plant yn sylweddol, yn enwedig cysylltiadau cryf iawn y lleoliad gyda'r ysgol. Mae'r lleoliad wedi ei leoli yn yr ysgol ac mae ganddo berthynas lwyddiannus iawn gyda staff yr ysgol, sy'n cynnwys athrawes y dosbarth Meithrin yn cynghori ac addysgu yn y lleoliad am un rhan o ddeg o'r wythnos. Mae hyn yn cefnogi trefniadau trosglwyddo plant yn dda iawn. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac o fudd i'r plant wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol.

Mae partneriaeth y lleoliad gyda'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin hefyd yn fuddiol. Mae'r perthynas gadarnhaol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog y Mudiad Meithrin yn mwyhau gwaith y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant, sy'n cynnwys cyfranogi'n llwyddiannus mewn gweithgareddau'r ysgol a'r gymuned leol. Mae ymarferwyr yn gweithio ac yn cysylltu ag ystod dda o grwpiau partneriaeth eraill, sy'n gwneud cyfraniad cryf i wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn

cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi’r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, hyfforddiant Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant diogelu.

Mae’r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad.  Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad.  Mae’r lleoliad yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn gadarnhaol ac mae'n anelu gyson i wella pob agwedd o waith y lleoliad.  Mae'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus.  Mae'r cynllunio strategol yn cefnogi addysgu effeithiol yr holl ymarferwyr.

Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys gyda hyfforddiant priodol.  Mae'n gymuned ddysgu gref, sydd â diwylliant o gydweithio rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r lleoliad, sy'n cynnwys cysylltiadau cryf gyda'r ysgol.  Mae’r systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn arwain at addysgu gwell.

Mae'r lleoliad yn rheoli ei hadnoddau yn bwrpasol i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau yn y lleoliad.  Mae dealltwriaeth glir o'r gyllideb gyda’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol â'u camau arfaethedig ar gyfer gwella’n effeithiol.  Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar gyflawniadau a lles plant.  Mae'r lleoliad yn darparu’r safonau gorau posibl o fewn ei gyllideb o ran yr adeilad ac adnoddau.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd deilliannau llwyddiannus y plant, darpariaeth effeithiol yr ymarferwyr a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 12 | 11<br>92% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 12 | 9<br>75% | 2<br>17% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 12 | 11<br>92% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 12 | 10<br>83% | 1<br>8% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 18% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 12 | 10<br>83% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 72% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 12 | 11<br>92% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 10<br>83% | 1<br>8% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | 10<br>91% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 12 | 12<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 11 | 8<br>73% | 2<br>18% | 0<br>0% | 1<br>9% | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 12 | 9<br>75% | 0<br>0% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 12 | 11<br>92% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 66% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 12 | 9<br>75% | 2<br>17% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 64% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 12 | 11<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |